

Cynnig i gau Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd Heol y Celyn ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a chreu ysgol 3-16 oed newydd ar safleoedd cyfagos Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen presennol.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r asesiad yma wedi'i lunio yn unol â chyfarwyddyd yn Atodiad C o'r cylchlythyr cyfarwyddyd statudol newydd 011/2018, Cod Trefniadaeth Ysgolion, a fydd yn cael ei roi ar waith o 1 Tachwedd 2018.

Bydd ymgynghoriad ar y cynnig yma'n cael ei gynnal rhwng 15 Hydref 2018 a 31 Ionawr 2019, yn rhan o ymgynghoriad ehangach sy'n ymwneud ag ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgol yn ardaloedd Pontypridd a'r Ddraenen Wen yn Rhondda Cynon Taf. Mae dogfen ymgynghori fanwl wedi cael ei dosbarthu i bob ymgynghorai penodedig. Mae copïau wedi cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru, er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd yr ymgynghoriad a'r cyhoeddiad. Mae'r ddogfen yn nodi bod yr holl Asesiadau Effaith gofynnol ar gael a sut bydd modd i ymgynghoreion gael gafael ar y rhain os bydd angen.

Dyma'r ganran o ddisgyblion (ar hyn o bryd) sy'n mynychu'r ysgolion yma ac sy'n byw yn eu dalgylchoedd perthnasol:

- Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen – 46%
- Ysgol Gynradd Heol y Celyn – 75%
- Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen – 85%

Mae canran sylweddol (40%) o'r plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, neu 97 o blant i gyd, yn byw mewn gwirionedd yn nalgylch cyfagos Ysgol Gynradd Heol y Celyn; mae rhai yn byw yn yr un stryd ag y mae Heol y Celyn wedi'i lleoli ynddi. Dydyn ni ddim o'r farn felly y bydd trosglwyddo ffrwd Saesneg Heol y Celyn i'r ddarpariaeth 3-16 oed yn y Ddraenen Wen yn cael effaith andwyol ar y plant na'r gymuned leol, oherwydd bod llawer o'r rhieni eisoes yn arfer eu hawl i ddewis yr ysgol yma ar gyfer eu plant.

Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol gynradd yn cynnig clybiau brecwast i'r holl ddisgyblion; byddwn ni'n argymhell bod y ddarpariaeth yma'n parhau yn yr ysgol 3-16 oed newydd os caiff y cynigion yma eu cymeradwyo.

Does yr un o'r ddwy ysgol gynradd yma'n cael eu defnyddio y tu allan i oriau arferol gan sefydliadau cymuned; dim ond grwpiau sy'n ymwneud â'r ysgolion sy'n eu defnyddio (e.e. Cymdeithas Rhieni ac Athrawon). Mae'r ddwy yn cynnig clybiau ar ôl yr ysgol i'w disgyblion; mae Heol y Celyn yn cynnal clybiau pêl-droed, pêl-rwyd a gymnasteg ar dair noson o'r wythnos ac mae'r Ddraenen Wen yn cynnal clybiau amrywiol ar dair noson o'r wythnos.

Mae'r ysgol uwchradd yn cynnal rhaglen lawn o weithgareddau allgyrsiol ar ôl yr ysgol bob dydd. Bydd holl gyfleusterau'r ysgol uwchradd bresennol ar gael i'r plant iau eu defnyddio (dan oruchwyliaeth) ac oherwydd hynny, bydd rhagor o gyfleoedd ar gael iddyn nhw o ran gweithgareddau ar ôl yr ysgol.

Mae pwll nofio ar safle'r ysgol uwchradd sydd hefyd ar agor i'r cyhoedd; fydd y cyfleuster yma ddim yn newid o ran y ffordd mae'n cael ei drefnu a'i redeg o ganlyniad i'r cynigion yma.

Mae'r cynnig yma'n ceisio gwella'r amgylchedd ysgol a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddisgyblion oedran Cynradd ac Uwchradd sy'n byw yn ardal y Ddraenen Wen a darparu ar gyfer pob plentyn a all fynychu'r ysgol yn y dyfodol o'i dalgylch (a fydd yn wahanol i adrannau Cynradd ac Uwchradd yr Ysgol 3-16 oed newydd arfaethedig). Dydy hon ddim yn ardal wledig, ac mae'r ffaith bod ysgolion a chyfleusterau cymuned eraill o fewn pellter byr yn golygu nad yw hi'n angenrheidiol ystyried gwella cyfleusterau cymuned eraill yn yr ardal leol.

Bydd y dalgylch ar gyfer disgyblion oedran cynradd a all fynychu'r ysgol 3-16 oed newydd yr un peth â dalgylchoedd Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen a ffrwd Saesneg Heol y Celyn, gyda'i gilydd. Y pellter rhwng safle Heol y Celyn a safle'r ysgol newydd yw milltir; dyma'r pellter mewn car, ond ar droed, byddai'r pellter yn llawer byrrach. Mae Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen wrth ymyl safle Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a'r pellter rhyngddyn nhw yw ychydig o fetrau yn unig.

Fydd yr un cyfeiriad sy'n dod o fewn dalgylch estynedig yr ysgol gynradd yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn seiliedig ar y pellter, oherwydd bod y cyfeiriadau pellaf o'r safle newydd i gyd o fewn y pellter cymhwyso, sef 1.5 milltir i ddisgyblion Cynradd yn Rhondda Cynon Taf. Y cyfeiriad pellaf ar ochr ddwyreiniol y dalgylch yw 0.9 milltir; ar ochr uchaf orllewinol y dalgylch 1.2 milltir yw e. Dydyn ni ddim o'r farn y bydd y pellteroedd yma'n rhwystro plant sydd am gymryd rhan yn y ddarpariaeth cyn, ac ar ôl, yr ysgol a fydd yn cael ei chynnig yn yr ysgol 3-16 oed newydd rhag gwneud hynny; bydd pob disgybl yn cael yr un cyfle i fanteisio ar y ddarpariaeth a'u hannog i gymryd rhan mewn cymaint o weithgareddau ag y maen nhw'n dymuno. Mae'r ffaith y bydd modd i holl blant oedran cynradd yn ardal y Ddraenen Wen ynghyd â'u chwiorydd a'u brodyr hŷn yn yr adran Uwchradd fynychu un ysgol yn cael ei hystyried yn fantais i'r rhieni gan y bydd modd i'w plant fynd i'r ysgol ar yr un safle yn lle mynychu ysgolion sydd ar hyn o bryd yn filltir i ffwrdd o'i gilydd.

Bydd dalgylch adran Uwchradd yr ysgol newydd yn aros fel y mae ar gyfer Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ar hyn o bryd ond bydd dalgylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn, Ton-teg, yn cael ei ychwanegu a dalgylch Ysgol Gynradd Coedpenmaen yn cael ei hepgor. Bydd ardal y Graig ym Mhontypridd hefyd yn cael ei hepgor. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer plant yn unol â Pholisi Cludiant i Ddisgyblion y Cyngor sy'n weithredol ar adeg trosglwyddo'r ddarpariaeth i'r ysgol 3-16 oed newydd. Bydd asesiadau yn cael eu cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym ac yn cynnwys cymhwyso'r meini prawf pellter a llwybrau peryglus, os ydyn nhw'n berthnasol.

